Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
Pennaeth/Head:
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

13 Medi 2024

Annwyl Rhiant / Warcheidwad,



*Traws Gwlad 2024*

**Wythnosau cyntaf prysur!** Rydym wedi mwynhau pythefnos prysur gyda myfyrwyr yn ymgartrefu'n dda i fywyd bob dydd yng Nglantaf. Roedd hefyd yn dda gweld y lefelau gwych o gyfranogiad, mwynhad ac egni yn ein ras Traws Gwlad flynyddol yr wythnos hon!

**Prydau Ysgol:** Mae trefniadau amser cinio a darpariaeth amser egwyl / clwb brecwast yn gweithio'n dda ac mae disgyblion Bl7 bellach wedi'u cofrestru ar y system. Bydd pob disgybl Blwyddyn 7 yn cael mynediad dyddiol i'r ffreutur o'r wythnos nesaf ymlaen yn ystod amser egwyl a cinio. Os oes anawsterau gyda'ch cyfrif ParentPay, cysylltwch â Ms Wiltshire: Wiltshiree16@hwbcymru.net

**HMS clwstwr:** Nodyn i'ch atgoffa fod yr ysgol ar gau i ddisgyblion ddydd **Mercher 25 Medi**. Mae rhestr o'n dyddiadau HMS a Thymor 2024-25 wedi'u cynnwys yn ein Hadroddiad Blynyddol

**Chromelyfrau Bl8:** Rydym yn falch bod y Chromelyfrau ar gyfer Bl8 wedi cyrraedd yr ysgol ac yn cael eu paratoi i'w dosbarthu cyn hanner tymor. Nodyn i atgoffa rhieni Bl8 i gwblhau eu cyfraniadau o £120 tuag at y gost. Diolch didwyll am gefnogi'r cynllun, sy'n ariannu 50% o'r ddyfais bersonol hon.

**Sesiwn wybodaeth i rieni/gofalwyr plant 11-16 oed ynghylch camfanteisio troseddol a rhywiol ar-lein:** Mae Heddlu De Cymru yn cynnig gweminar ryngweithiol i rieni/gofalwyr Glantaf ddydd **Iau 3-10-24 rhwng 6pm a 7pm,** i dynnu sylw at risgau cynyddol plant a phobl ifanc i gynnwys/llwyfannau ar-lein âg ecsploitio. Ymunwch yma: Ymunwch Yma Hoffem hefyd eich cyfeirio at sesiwn sy'n hyrwyddo Llythrennedd a Lles Digidol yn oes AI drwy blatfform hwb: cofrestrwch ar gyfer y sesiwn (17.9.24 @ 5.15pm): **Taflen Cofrestru**

**Lluniau ysgol:** Hoffwn eich atgoffa fod lluniau disgyblion Bl 7, 10 a 12 bellach ar gael i'w prynu ar-lein trwy Colorfoto, gyda'r *cynnig rhad cynnar* yn dod i ben ar 23 Medi.

**Gwisg Ysgol a'n safle Facebook am ddim ar gyfer ailgylchu gwisg ysgol:** Hoffwn ddiolch i bawb am eich cefnogaeth i gadw safonau uchel o wisg ysgol. Fodd bynnag, mae nifer o ddisgyblion yn parhau i wisgo gemwaith i'r ysgol. Ni ddylai unrhyw fwclis, breichledi fod yn y golwg a dylai clustdlysau fod yn stydiau bach. Cofiwch fod ein safle gwisg ysgol am ddim ar gyfer rhannu neu ofyn am wahanol feintiau hefyd ar gael: Ailgylchu Gwisg Ysgol Glantaf Gwisg Ysgol Glantaf - Home | Facebook

**Cyfathrebu / App Classcharts ac X:** Gobeithio eich bod wedi cofrestru'n llwyddiannus ar gyfer ein App Classcharts i rieni, sy'n rhannu gwybodaeth fyw am bresenoldeb, gwobr a sancsiynau, aseiniadau gwaith cartref yn ogystal â rhannu llythyrau a chyfathrebu. Os ydych yn cael anawsterau neu os nad ydych wedi derbyn côd, cysylltwch â Ms Emma Wiltshire: Wiltshiree16@hwbcymru.net Rydym hefyd yn falch bod pob plentyn wedi derbyn *Llyfr Cyswllt* newydd diwygiedig am y flwyddyn sy'n cynnwys eu hamserlen, calendr ysgol, aseiniadau gwaith cartref, cysylltiadau a gwybodaeth ddefnyddiol. Oherwydd y

cynnydd mewn cynnwys amhriodol a safbwyntiau eithafol ar blatfform X, rydym ar hyn o bryd yn adolygu ein defnydd.   Er y byddwn yn parhau i rannu gwybodaeth ar lwyfan X am y tro, rydym yn disgwyl newid ein dull o rannu llwyddiannau â'n cymuned estynedig, cyn bo hir.

**Allgyrsiol: Llangrannog bl 7 / Celf a Dylunio Bl11-12 i Lundain:** Nodwch ddyddiadau cwrs preswyl Llangrannog ar gyfer Bl7 (Hydref 2-4ydd). Bydd mwy o fanylion am y cwrs yn cael eu hanfon atoch yn fuan ac mae manylion talu yn fyw ar *ParentPay*.  Ein bwriad yw y bydd pob disgybl yn mynychu'r cwrs ac edrychwn ymlaen at eu cwmni da yn ystod yr ymweliad.  Bydd ymweliad deuddydd preswyl â Llundain ar gyfer myfyrwyr Celf a Dylunio Bl11-12 ar 23-24 Medi.

**Cludiant ysgol:** Rydym yn ymwybodol o anawsterau ynghylch rhai o'r bysiau i Glantaf, ond mae tocynnau teithio bellach wedi'u dosbarthu ac rydym yn gobeithio y bydd modd cynnwys y disgyblion hynny sy'n dymuno teithio ar y bws yn rhwydd.  Fodd bynnag, mae cludiant ysgol yn fater a drefnir gan yr Awdurdod Lleol ac os oes gennych bryderon dylid eu cyfeirio at yr ALl neu'r cwmni bysiau.

**Sesiynau adolygu rhifedd ar gyfer Bl 11 ar gyfer arholiadau TGAU mis Tachwedd:** Mae sesiynau adolygu wythnosol wedi dechrau ar gyfer pob myfyriwr ym Mlwyddyn 11 gan arwain at arholiadau Rhifedd ym mis Tachwedd (5 a 7/11/24).  Hoffem ddiolch i chi ymlaen llaw am eich cefnogaeth i sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r sesiynau adolygu gwerthfawr hyn.

**Profion CAT Bl7:**  Yn ystod yr wythnos nesaf bydd disgyblion Bl7 yn sefyll eu profion CAT.  Mae'r profion ar-lein hyn yn ddefnyddiol ar gyfer olrhain cyrhaeddiad, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio o gwbl wrth drefnu disgyblion mewn gwahanol ddosbarthiadau. Byddant yn digwydd o fewn ein hystafelloedd TGCh a dylent gymryd dwy neu dair gwers i'w cwblhau yn ystod yr wythnos.

**Nosweithiau Gwybodaeth Bl 12 a Bl 10 ac 11**: Byddwn yn cynnal nosweithiau gwybodaeth i rieni trwy *Teams* ar y dyddiadau canlynol.  Ymunwch â ni i drafod y flwyddyn sydd i ddod (Gwahoddiad cyfarfod ar *Teams /*  Hwb eich plentyn):

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Llun, Medi 16 | Bl 12 | 6pm (cyfrwng Cymraeg) | 6.30pm (cyfrwng Saesneg) |
| Dydd Llun, Medi 30 | Bl 11 | 6pm (cyfrwng Cymraeg) | 6.30pm (cyfrwng Saesneg) |
| Dydd Llun 14 Hyd | Bl 10 | 6pm (cyfrwng Cymraeg) | 6.30pm (cyfrwng Saesneg) |

***Caffi Lles* galw mewn i Rieni:** Byddwn yn cynnal ein sesiwn *Caffi Lles* nesaf i rieni yn yr ysgol, ddydd Mercher 9 Hydref 2-3pm.  Bydd y sesiwn anffurfiol hon yn amlinellu'r cymorth lles sydd ar gael yng Nglantaf a'r hyn sydd ar gael drwy ein partneriaid allanol.  *Croeso cynnes i bawb!*

**Clybiau a gweithgareddau allgyrsiol:** Mae'n dda dychwelyd i'n rhaglen allgyrsiol yn yr ysgol wrth i dimau, corau a chlybiau ailgychwyn.  Mae arferion ar gyfer sioe gerdd yr ysgol Shrec ar y gweill a cadwch 19-21 Tachwedd yn glir yn eich dyddiaduron! Bydd rhagor o wybodaeth am y clybiau allgyrsiol yn cael ei rhannu gyda chi cyn bo hir, gan gynnwys dau gyfle gwych gyda'n Cerddorfa Clwstwr (9fed Hydref) a Cherddorfa Unedig Ysgolion Cymraeg, De Cymru (6-8 Tachwedd): mwy o fanylion gan yr adran Gerddoriaeth!   Yn olaf, edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda chi yn ystod y flwyddyn i ddod, ac fel bob amser os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r ysgol neu ewch i'n gwefan: [Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf]

Yn gywir,

Matthew H T Evans
Pennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



*Noson Wobrwyo Chwaraeon 2024*